Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 31.01.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# DIGWYDDIAD: Consesiynau Arlwyo Eisteddfod 2023 – Digwyddiad tendro 3 Chwefror 2023

Bydd Busnes@gwynedd.llyw.cymru ar y cyd â Busnes Cymru yn cynnal gweminar dydd Gwener nesaf, 3 Chwefror 2023 am 11:00am, i gefnogi busnesau yn tendro am gonsesiynau arlwyo Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023, gydag aelodau staff yr Eisteddfod yn cyflwyno'r cyfleon sydd ar gael. I gofrestru, cysylltwch â: busnes@gwynedd.llyw.cymru, neu gallwch ymuno yn uniongyrchol ar Zoom trwy fynd i:

https://bit.ly/3XNoyOB

Y dyddiad cau ar gyfer cynigion tendr Consesiynau Arlwyo Eisteddfod 2023 yw 12:00pm 10 Chwefror 2023. Mae manylion ar gael ar:

https://eisteddfod.cymru/2023-consesiynau-arlwyo

# CYMORTH: Busnes@gwynedd.llyw.cymru – sesiwn galw i mewn Bangor 2 Chwefror 2023

Galwch heibio i gyfarfod timau Busnes@gwynedd.llyw.cymru a Gwaith Gwynedd Cyngor Gwynedd yn M-SParc Ar y Lôn Bangor – 204 Stryd Fawr, LL57 1NY – dydd Gwener yma, 2 Chwefror 2023 (9:00am-12:00pm). Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Busnes@gwynedd.llyw.cymru neu: GwaithGwynedd@gwynedd.llyw.cymru

# GWOBRAU: Gwobrau Dathlu Busnesau Bach FSB 2023 – Ceisiadau yn cau 2 Chwefror 2023

Mae ceisiadau ar gyfer Gwobrau Dathlu Busnesau Bach 2023 yr FSB, sydd ar agor i bob busnes bach a chanolig, yn cau dydd Iau, 2 Chwefror 2023. Am fwy o wybodaeth, ac i gystadlu, ewch i:

https://www.fsbawards.co.uk/enter.html

# CYFLE: Community Catalysts – Prosiect Micro-fentrau Gwynedd

Yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd, mae Community Catalysts yn gweithio gyda phobl leol i'w helpu i gychwyn micro-fentrau newydd sydd yn cynnig opsiynau gofal a chymorth newydd a chreadigol i bobl sydd angen help gartref neu yn eu cymunedau. Dysgwch fwy drwy fynd i:

https://www.communitycatalysts.co.uk/cy/project/gwynedd/

Ar hyn o bryd, mae Community Catalysts yn chwilio am Gatalydd Micro-fenter Cymunedol i arwain y Prosiect. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.communitycatalysts.co.uk/cy/join-our-team/

# CYMORTH: Cynllun Help to Grow | Digital – cau 2 Chwefror 2023

Bydd y cynllun Help to Grow | Digital, a gynlluniwyd i roi cyngor diduedd am ddim i BBaChau ar sut gall technoleg helpu eu busnes a thalebau gwerth hyd at £5,000 i dalu am hyd at 50% o gostau prynu meddalwedd a gymeradwywyd ymlaen llaw, yn cau ar gyfer ceisiadau ar 2 Chwefror 2023. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://www.learn-to-grow-your-business.service.gov.uk/

# TRAFNIDIAETH: Pont Borth yn ailagor ar 2 Chwefror 2023

Yn dilyn gwaith atgyweirio brys, bydd disgwyl i Bont Borth ailagor – gyda chyfyngiad pwysau o 7.5 tunnell – erbyn hanner nos ar ddydd Iau 2 Chwefror 2023. I ddarllen datganiad y wasg Llywodraeth Cymru, ewch i:

https://www.llyw.cymru/bydd-pont-menain-ailagor-ar-amser

# CYFLOGAETH: Wythnos Prentisiaethau 6-12 Chwefror 2023

Bydd Wythnos Prentisiaethau, dathliad blynyddol prentisiaethau a'r gwerth a ddaw yn eu sgil i gyflogwyr a dysgwyr, yn cymryd lle wythnos nesaf (6 i 12 Chwefror 2023). Mae pecyn cymorth ar gael ar:

http://bit.ly/3WWsL1e

Mae gwybodaeth am recriwtio prentisiaid ar gael ar:

https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru